



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

**Chwaraeon Cymru**

**Penodi Is-Gadeirydd**

**Dyddiad Cau: 6 Mehefin 2017**



**The Commissioner for  
Public Appointments**

# CHWARAEON CYMRU

**Cynnwys**

Tudalen

**Gwneud Cais**

**Atodiad A : Rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru**

**Atodiad B: Rôl Is-gadeirydd**

**Atodiad C: Y broses ddethol**

## CHWARAEON CYMRU

### Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Is-gadeirydd Chwaraeon Cymru . Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl yr Is-gadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd yr Is-Gadeirydd: ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith.

Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen i gofrestru ar system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

### Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, ceisiwch roi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf ac sy'n disgrifio'r hyn a wnaethoch wrth gyflawni canlyniad penodol. Byddech yn helpu'r panel dethol hefyd pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer gyffredin.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwn.

### CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

### Amserlen Fras

Dyddiad cau:	6 Mehefin 2017
Llunio rhestr fer:	Wythnos yn dechrau 3 Gorffennaf
Cyfweliadau:	4 Gorffennaf 2017

### Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – a chynnwys pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl ac i wneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob

## CHWARAEON CYMRU

grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

### **Cynllun Gwarantu Cyfweiliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweiliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais yn gyfle ichi nodi hefyd unrhyw anghenion neu offer penodol fydd ei angen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweiliad.

### **Manylion Cyswllt:**

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: [sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk](mailto:sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk)

Am ragor o wybodaeth am rôl Chwaraeon Cymru a rôl ei Aelodau, cysylltwch â David Rosser, Pennaeth Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

Ffôn: 0300 061 6051

E-bost: [david.rosser@wales.gsi.gov.uk](mailto:david.rosser@wales.gsi.gov.uk)

Os oes angen rhagor o help arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu e-bostiwch [SharedServiceHelpdesk@wales.gsi.gov.uk](mailto:SharedServiceHelpdesk@wales.gsi.gov.uk)

For further information about Public Appointments in Wales, please visit [www.gov.wales/publicappointments](http://www.gov.wales/publicappointments)

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

#### Rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a ffyrdd egniïol o fyw. Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw Cyngor Chwaraeon Cymru, ac fe'i ariennir yn bennaf trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu cyllid o'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru ym 1972 trwy Siarter Frenhinol. Y pedwar amcan a nodwyd pan sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (a adwaenir bellach fel Chwaraeon Cymru) yw :

- Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egniïol;
- Codi safonau mewn perfformiad a rhagoriaeth;
- Gwella'r ddarpariaeth o ran cyfleusterau chwaraeon;
- Darparu gwybodaeth a chyngor technegol am chwaraeon, hamdden a ffyrdd egniïol o fyw.

I weld y Siarter Frenhinol, cliciwch yma: [www.sport.wales/media/128780/royal\\_charter.doc](http://www.sport.wales/media/128780/royal_charter.doc)

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn berchen ar ddwy ganolfan genedlaethol; Athrofa Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd a Chanolfan Genedlaethol Chwaraeon Dŵr Plas Menai yn y Gogledd.

Mae blaenoriaethau gweithredol a thargedau perfformiad Chwaraeon Cymru yn seiliedig ar lythyr cylch gwaith blynyddol Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn ymateb iddo. Mae'r llythyr hwnnw'n gosod allan ei blaenoriaethau strategol; unrhyw bolisïau a chynlluniau gweithredu penodol; a pholisïau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwlad sy'n gorfforol egniïol ac sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, yn unol â'r strategaethau Dringo'n Uwch a Creu Cymru Egniïol.

Nod Chwaraeon Cymru yw gwella lefel y gyfranogaeth mewn chwaraeon ar lawr gwlad ond gan roi'r gefnogaeth sydd ei hangen hefyd ar athletwyr uchelgeisiol i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.

Mae polisïau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru yn cynnwys yn benodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Maen nhw'n ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru integreiddio'i holl waith i gefnogi'r saith nod llesiant yn ogystal â phum elfen lywodraethu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

## CHWARAEON CYMRU

Dysgwch fwy am Chwaraeon Cymru trwy fynd i  
www.chwaraeoncymru.org.uk <http://www.sportwales.org.uk/> a gwyllo'r ffilmiau  
corfforaethol isod:

- <http://www.sportwales.org.uk/about-us/about-sport-wales/what-we-do.aspx>
- <http://www.youtube.com/watch?v=eNvHHKHt-x0>

### Rôl HOLL Aelodau Bwrdd Chwaraeon Cymru

Bwrdd Chwaraeon Cymru sy'n arwain ac yn llywodraethu Chwaraeon Cymru ac yn gwneud y gwaith pwysig o graffu ar holl fuddsoddiadau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru. Y Bwrdd hefyd sy'n pennu amcanion y dyfodol.

Mae gan y Bwrdd 10 o Aelodau ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y Cadeirydd Dros Dro, Lawrence Conway.

Bydd Aelodau'r Bwrdd yn atebol fel unigolion ac ar y cyd i Lywodraeth Cymru drwy Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Swyddogaeth yr Is-gadeirydd

- Cynorthwyo'r Cadeirydd wrth arwain cyfeiriad cyffredinol Chwaraeon Cymru, ac wrth gyflawni polisi'r Llywodraeth ynghylch chwaraeon a hamdden corfforol;
- Cynorthwyo'r Cadeirydd wrth arwain a rhoi cyfarwyddyd i'r Bwrdd, un ai yng nghyfarfodydd llawn y Bwrdd neu ar baneli cynghori arbenigol neu weithgorau;
- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt rhwng y Bwrdd, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol a swyddogion y Llywodraeth;
- Rhannu cyfrifoldeb â'r Cadeirydd am uniondeb a chyfreithlondeb mewn perthynas â materion Chwaraeon Cymru;
- Deall manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol ynghyd â'u manteision positif i gymdeithas, gan hyrwyddo'r manteision hynny;
- Meddu ar weledigaeth glir ynghylch sut y gall Chwaraeon Cymru barhau i gyfrannu fel prif ddarparwr polisi chwaraeon y Llywodraeth a thrwy hynny, ddeall Llywodraeth Cymru a sut y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n gweithio..
- Meddu ar sgiliau craffu a dadansoddi ardderchog i gefnogi a herio'r Weithrediaeth yn effeithiol, gan sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn cyrraedd ei amcanion, ei nodau a'i dargedau perfformiad;
- Sicrhau bod Chwaraeon Cymru'n rhoi gwerth ei arian gan gadw at fframwaith arfer gorau, rheoleidd-dra a phriodoldeb;
- Cymryd rhan yn y broses gynllunio gorfforaethol, gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau cyllideb blynyddol ar gyfer rhaglenni gweithredol a gweithgareddau corfforaethol ;
- Deall Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan ac ymrwymo iddynt.
- Arfer safonau uchel o safbwynt priodoldeb ac wrth ymdrin ag arian cyhoeddus;
- Meddu ar ddealltwriaeth dda o gyfrifoldeb corfforaethol a rheoli risg i sicrhau bod gweithgareddau Chwaraeon Cymru yn cael eu cynnal yn effeithiol ac effeithlon;
- Meddu ar feddwl ymchwilgar, sgiliau gwrando da a'r gallu i ddeall sefyllfaoedd ac adroddiadau cymhleth.

## CHWARAEON CYMRU

- Meddu ar barodrwydd ac ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a gweithgareddau pwysig rhwng cyfarfodydd a chymryd rhan amlwg ynddynt.
- Bod yn wleidyddol annibynnol.
- Penodi Prif Weithredwr, os oes angen, ar ôl cael sêl bendith Llywodraeth Cymru.

### Manyleb y Person

#### Hanfodol

- y gallu i arwain bwrdd gweithredol a chefnogi arweinwyr sefydliad uchel ei broffil;
- rhoi arweiniad strategol a meddu ar y gallu i feithrin cysylltiadau da;
- excellent communication skills including the ability to operate effectively as an ambassador for Sport Wales, demonstrating tact and diplomacy in dealings with stakeholders;
- deall datganoli a'i oblygiadau i cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru;
- Deall bywyd cyhoeddus ac egwyddorion llywodraeth dda
- Y gallu i feddwl yn rhesymegol ac yn wrthrychol wrth ddadansoddi gwybodaeth gymhleth er mwyn medru adnabod cnewyllyn y mater a gwneud penderfyniadau da.
- Ymrwymiad amlwg i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ledled Cymru;
- Deall cymunedau amrywiol Cymru ac ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth.

### Yr Iaith Gymraeg

Mae swydd yr Is-gadeirydd yn swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, at y lefel a nodir isod:

Deall - yn gallu deall rhannau o sgwrs elfennol..

Darllen : dim sgiliau

Siarad - yn gallu cynnal sgwrs elfennol yn y Gymraeg.

Ysgrifennu - dim sgiliau.

Mae hyn yn golygu y byddai'n fantais i ymgeisydd pe bai'n gallu deall a siarad rhannau o sgwrs elfennol yn y Gymraeg cyn belled â'i fod wedi bodloni'r holl feini prawf hanfodol eraill.

### Amrywiaeth

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau oddi wrth fenywod, pobl anabl ac unigolion â chefnidir ethnig lleiafrifol sy'n gyfarwydd â byd chwaraeon, sydd â diddordeb gwirioneddol yng ngwaith Chwaraeon Cymru ac sy'n gallu cyfrannu at sicrhau ei fod yn gorff cyhoeddus o fri sydd hyd yn oed yn fwy llwyddiannus.



## CHWARAEON CYMRU

### **Aelodaeth y Bwrdd**

Mae gan y Bwrdd 10 o Aelodau ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y Cadeirydd Dros Dro, Lawrence Conway.

### **Cyfarfodydd y Bwrdd**

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd mewn manau gwahanol ar hyd a lled Cymru. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cyfarfod o leiaf bum gwaith y flwyddyn, gydag o leiaf dau o'r cyfarfodydd hynny yng Nghaerdydd. Staff Chwaraeon Cymru sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd hefyd nifer o weithgorau a phaneli.

### **Telerau Penodi**

Caiff y penodiad ei wneud gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran Llywodraeth Cymru.

### **Hyd y Penodiad**

Bydd y penodiadau'n para am gyfnod o dair blynedd, a gellir ailbenodi am gyfnod arall o dair blynedd. Adolygir perfformiad Aelodau'r Bwrdd bob blwyddyn drwy'r Cadeirydd.

### **Pwy sy'n cael gwneud cais**

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn benodol, rhaid i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a allai achosi embaras iddyn nhw neu i Lywodraeth Cymru pe bai'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod eistedd ar fwrdd Chwaraeon Cymru yn golygu na allant ddod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Datgymhwyso) 2010.

### **Ymrwymiad Amser**

Disgwylir i'r Aelodau fod ar gael i weithio am o leiaf 3 diwrnod y mis (er bod y rhan fwyaf o aelodau yn rhoi mwy o amser na hynny).

### **Tâl**

Telir £311 y dydd i Aelodau'r Bwrdd. Ceir hawlio costau teithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill a ysgwyddir wrth ymgymryd â gwaith y Bwrdd oddi wrth Chwaraeon Cymru o fewn y terfynau cydnabyddedig. Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol wrth wneud gwaith ar ran y Panel.

### **Cymorth ar gyfer Aelodau Anabl**

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r aelodau fedru gwneud eu dyletswyddau'n effeithiol.

### **Gwrthdaro buddiannau**

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Is-Gadeirydd Chwaraeon Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

## CHWARAEON CYMRU

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### **Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at y Cod Llywodraethu. I weld y ddogfen hon, ewch i:

<https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments>

### **Hyfforddiant Cynefino**

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus fynd i sesiwn gynefino yn Chwaraeon Cymru

### Y BROSES DDETHOL

#### DYDDIAD DECHRAU

1 Hydref 2017

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Cadeirydd y panel dethol fydd David Rosser (Swyddog gyda Llywodraeth Cymru) ac yn aelodau ohono hefyd fydd Lawrence Conway, Cadeirydd Dros Dro Chwaraeon Cymru, Diane McCrea, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru (Aelod Annibynnol o'r Panel) a Laura Griffiths (Aelod o'r Panel ar ran Llywodraeth Cymru).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y caiff eich cais ei roi ar "restr hir" cyn iddo gael ei roi i'r panel i lunio rhestr fer. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Mehefin 2017 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad yng Ngorffennaf 2017.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Ond os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol hanfodol y swydd, yna cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ac na fydd dyddiad y cyfweiliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch ddod i'r cyfweiliad ar y diwrnod hwnnw, gwnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd. CF11 9SW.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hynny cyn penderfynu. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

## CHWARAEON CYMRU

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch llythyr yn eich penodi'n Is-Gadeirydd Chwaraeon Cymru, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid wrth gryn ymdrech ac amser i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

### **Ymholiadau**

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu ebostiwch [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk).

### **Os nad ydych yn hollol fodlon**

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu [sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk](mailto:sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk)

### **Y DYDDIAD CAU**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 6 Mehefin 2017. Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni cais a ddaw i law wedi'r dyddiad hwn. Disgwylir cynnal y cyfweiliadau ar 4 Gorffennaf 2017.